# CYLCHLYTHYR I RIENI / GOFALWYR

Hydref 2025

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd**

## Croeso

Croeso i gylchlythyr yr hydref i rieni a gofalwyr. Mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd bob amser yn un prysur ac amrywiol i'n cynghorwyr gyrfa sy'n gweithio ym maes addysg. Mae pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau yn wynebu dechrau newydd wrth iddynt symud o un grŵp blwyddyn i'r llall ac mae ein cynghorwyr yno i'w cefnogi i baratoi ar gyfer eu camau nesaf.

Ein ffocws yn ystod tymor yr hydref yw sicrhau bod pawb sydd wedi symud ymlaen o flwyddyn 11 wedi ymgartrefu yn eu hopsiwn addysg neu hyfforddiant dewisol a bod y rhai sy'n dal yn ansicr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ddod o hyd i rywbeth sy'n addas iddynt. Efallai y byddwn yn cysylltu â'ch plentyn i wirio i ble maen nhw wedi symud ymlaen fel rhan o'r gwaith arolwg cyrchfannau rydyn ni'n ei wneud ar ran Llywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn gweithio gydag ysgolion y tymor hwn i sicrhau bod cynllun ar waith i gynnig cyfweliad cyfarwyddyd i bob unigolyn ifanc cyn iddynt adael blwyddyn 11.

Yn y rhifyn hwn o'n cylchlythyr i rieni/gofalwyr, fe welwch chi rai awgrymiadau defnyddiol ar sut y gallwch chithau gynorthwyo eich plentyn i gynllunio ei yrfa a phenderfynu ar ei gamau nesaf. Rydym yn rhannu stori Isabelle am deimlo'n hyderus ynghylch ei dewisiadau gyrfa a sut mae Rhys yn gweithio gydag ysgolion i ddod â byd gwaith yn fyw i ddysgwyr.

## Opsiynau blwyddyn 9

Os yw eich plentyn ym mlwyddyn 9, cyn bo hir bydd angen iddo ddewis ei bynciau ar gyfer blwyddyn 10 ac 11.

Gall dewis pynciau TGAU fod yn gyfle cyffrous i gael sgwrs ystyrlon gyda'ch plentyn am ei ddyheadau, ei diddordebau, a'r pynciau y byddai'n mwynhau eu hastudio yn y dyfodol.

Er ei bod yn ymddangos yn gynnar i fod yn gwneud penderfyniadau a allai ddylanwadu ar ei lwybr gyrfa, mae'r dewisiadau hyn yn llywio'r opsiynau sydd ar gael iddo yn ddiweddarach, fel cyrsiau, cymwysterau, prentisiaethau, cyrsiau Safon Uwch a'r brifysgol.

Peidiwch â phoeni, nid oes rhaid i'r broses hon fod yn llethol. Darllenwch ein canllaw ar gyfer dewis pynciau:

[Opsiynau pwnc ym mlynyddoedd 8 a 9 | Gyrfa Cymru (llyw.cymru)]

**Dysgwch fwy am y dewisiadau a'r penderfyniadau y bydd eich plentyn yn eu gwneud a sut rydym yn eu cefnogi:**

[Eich plentyn ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 | Gyrfa Cymru]



# Aros! Paid rhoi'r gorau iddi

## Cysyllta â ni i drafod dy opsiynau

A yw eich plentyn wedi dechrau yn y coleg neu'r chweched dosbarth yn ddiweddar ac yn pendroni nawr a yw wedi gwneud y penderfyniad cywir?

Ni ddylai ruthro i wneud penderfyniad y gallai ei ddifaru yn ddiweddarach, a gallai fod o gymorth i oedi a myfyrio ar y tri chwestiwn hyn:

1. Pam mae gen i amheuon am y cwrs?
2. Beth yw fy opsiynau?
3. Pwy all fy nghefnogi?

Gofynnwch i'ch plentyn ddarllen yr erthyglau isod os oes ganddo amheuon am ei gwrs:

- Meddwl am adael cwrs?
- Tri chwestiwn allweddol i'w gofyn



# Awgrymiadau gorau i gefnogi eich plentyn

### 1 Gwrandewch a byddwch yn gefnogol

Dysgwch fwy am pam mae eich plentyn eisiau gadael y coleg neu'r chweched dosbarth. Gallai fod oherwydd amrywiaeth o resymau, a gellid datrys rhai ohonynt yn hawdd. Beth bynnag yw'r rheswm, gallwch gael cymorth gan y coleg, yr ysgol neu gennym ni yn Gyrfa Cymru.

### 2 Rhannwch eich profiadau eich hun

Gallwch rannu eich profiadau eich hun o addysg a chyflogaeth. Rhannwch eich profiadau o astudio neu weithio a dangoswch fod llawer o bethau cadarnhaol ym mhob sefyllfa.

### 3 Gwnewch gynllun

Edrychwch ar yr opsiynau eraill sydd ar gael fel gwneud cais am brentisiaeth, gwneud cais am Twf Swyddi Cymru+, dod o hyd i gyflogaeth neu brofiad gwaith. Mae'n well i'ch plentyn aros yn yr ysgol neu'r coleg nes y penderfynir ar ei gam nesaf.

# Gallwn ni helpu

### Gall ein cynghorwyr gyrfa profiadol wneud y canlynol:

- archwilio'r opsiynau sydd ar gael gyda'ch plentyn
- gwrando ar eu pryderon a chynllunio'r camau nesaf
- cynnig cymorth, cyngor ac arweiniad i chi fel rhieni a gofalwyr

### Siaradwch â chynghorydd gyrfa

Cliciwch yma i drefnu apwyntiad i'ch plentyn siarad â chynghorydd dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy alwad fideo.

# Amserlen blwyddyn 11

Fel rhieni dysgwyr blwyddyn 11, gallwch ddisgwyl heriau a chyflawniadau yn y flwyddyn sydd i ddod wrth i'ch plentyn baratoi ar gyfer arholiadau allanol ac ar gyfer gadael blwyddyn 11. Er mwyn eich helpu i fod yn wybodus, dyma amserlen o ddigwyddiadau allweddol i gadw llygad amdanynt yn ystod y flwyddyn:



## Medi

Nôl i'r ysgol! Dylai eich plentyn ddechrau meddwl o ddifrif am ba fath o yrfa yr hoffai ei chael, a'r camau nesaf. Os yw'n ystyried prentisiaethau, swyddi neu hyfforddiant, dylech ei annog i siarad â'i gynghorydd gyrfa yn yr ysgol yn gynnar yn y flwyddyn academaidd. Bydd ein cynghorwyr gyrfa yn dechrau gwahodd dysgwyr blwyddyn 11 i gyfweliadau gyrfaoedd o fis Medi ymlaen. Anogwch eich plentyn i fynychu ei gyfweliad a gofyn iddo am yr hyn a drafodwyd, yr hyn a ddarganfuwyd a'i gamau nesaf. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu â ni.

## Hydref

Mae'n bosibl y caiff eich plentyn ei wahodd i nosweithiau agored ar gyfer y chweched dosbarth a nosweithiau agored ar gyfer y coleg o fis Hydref ymlaen. Gallwch gofrestru i dderbyn ein bwletin swyddi gwag a fydd yn rhoi rhyw syniad i chi o'r mathau o swyddi gwag a hysbysebir yn lleol ac yn genedlaethol.

Bwletin swyddi gwag

## Tachwedd

Ffug arholiadau blwyddyn 11 yn dechrau. Bydd angen i'ch plentyn ddechrau meddwl am gyflwyno unrhyw geisiadau ar gyfer cyrsiau coleg, swyddi, prentisiaethau neu hyfforddiant. Gallwch ei helpu gyda'r broses ymgeisio a'i helpu i gwblhau unrhyw geisiadau ffurfiol.

## Rhagfyr

Edrychwch ar yr adran rieni am ragor o wybodaeth am sut i gefnogi eich plentyn.

Yr adran rieni

## Ionawr / Chwefror / Mawrth

Prentisiaethau mawr yn cael eu hysbysebu. Cadwch mewn cysylltiad â'ch cynghorydd gyrfa os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn gwneud cais am waith, hyfforddiant neu brentisiaethau. Mae angen i'ch plentyn gadarnhau ei opsiynau, ond hefyd ystyried cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd pethau'n mynd o chwith.

## Ebrill

Mae'n bosibl y bydd tîm Cymru'n Gweithio mewn cysylltiad â'ch plentyn i gynnig cymorth gyda cheisiadau am swyddi, hyfforddiant neu brentisiaethau. Mae Cymru'n Gweithio yn rhan o Gyrfa Cymru.

Cymru'n Gweithio

## Mai

Arholiadau TGAU yn dechrau.



## Mehefin

Y dyddiad gadael ysgol swyddogol yw'r dydd Gwener olaf ym mis Mehefin, pryd bynnag y bydd eich plentyn yn troi'n 16 oed. Ni all pobl ifanc ddechrau prentisiaeth neu raglen hyfforddi yn swyddogol cyn y dyddiad hwn. Efallai y bydd ein cynghorwyr gyrfa yn cysylltu â'ch plentyn yn ystod misoedd yr haf i weld a oes angen unrhyw gymorth arno gyda chynllunio neu wneud cais am ei gam nesaf. Gall hyn fod drwy neges destun, e-bost neu WhatsApp.

## Gorffennaf

Erbyn hyn, bydd disgyblion blwyddyn 11 wedi gadael yr ysgol a bydd y rhan fwyaf wedi gwneud cais am y cam nesaf o'u dewis. Fodd bynnag, bydd rhai yn dal yn ansicr ac efallai y bydd angen cymorth arnynt. Os nad yw'ch plentyn wedi gwneud penderfyniad am ei gam nesaf, anogwch ef i gysylltu â'i gynghorydd gyrfa. Mae'n bosibl y cynigir cyfweliad iddo gyda'i gynghorydd neu gyda gwasanaeth Cymru'n Gweithio, a hynny dros y ffôn, drwy alwad fideo neu wyneb yn wyneb yn un o'n canolfannau. Fel rhiant, mae croeso i chi gysylltu â ni hefyd i drafod opsiynau eich plentyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Gysylltu â ni

## Awst

Canlyniadau TGAU.

Os bu cynlluniau eich plentyn yn llwyddiannus, bydd yn symud ymlaen i'r cam nesaf o'i ddewis. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai pobl ifanc yn cael canlyniadau annisgwyl neu efallai y byddant wedi newid eu meddwl. Bydd cynghorwyr gyrfa ar gael ar y diwrnod canlyniadau naill ai yn yr ysgol, yn eich canolfan gyrfa leol, neu dros y ffôn. Os oes angen i chi siarad â chynghorydd ar y diwrnod canlyniadau neu o gwmpas y diwrnod hwnnw, ffoniwch 0800 0284884 neu trefnwch apwyntiad gyda chynghorydd yma.

Trefnwch apwyntiad



# Cwis Gwneud Penderfyniadau *Newydd*

Mae teclyn newydd bellach ar gael ar wefan Gyrfa Cymru i helpu pobl o bob oed i wneud penderfyniadau am eu dyfodol.

Mae'r Cwis Gwneud Penderfyniadau yn gyflym ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Mae'n helpu pobl i ddysgu am eu harddull gwneud penderfyniadau.

Mae'r cwis yn helpu pobl i ddod yn fwy ymwybodol o sut maen nhw'n gwneud dewisiadau. Mae hefyd yn rhoi awgrymiadau ymarferol ac yn dangos gwahanol ddulliau o wneud penderfyniadau.

Mae'r cwis yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y canlynol:

- **myfyrwyr Blwyddyn 9 sy'n dewis pynciau.**
- **pobl ifanc sy'n penderfynu ar opsiynau ôl-16 ac ôl-18.**
- **y rhai sy'n ystyried eu camau nesaf ar ôl canlyniadau arholiadau.**
- **pobl sydd am newid gyrfa sy'n archwilio cyfleoedd newydd.**
- **unigolion sydd mewn perygl o roi'r gorau i addysg bellach.**

Gall gwneud penderfyniadau gwybodus am y dyfodol fod yn heriol, waeth beth fo'ch oedran neu ble rydych chi ar eich taith gyrfa.

Mae'r Cwis Gwneud Penderfyniadau yn offeryn syml ond effeithiol sy'n helpu unigolion i fyfyrio ar sut maen nhw'n mynd ati i wneud dewisiadau ac yn dysgu technegau gwerthfawr i wneud penderfyniadau'n hyderus.

Atebwch chwe chwestiwn i ddarganfod eich arddull gwneud penderfyniadau:

Cwis Gwneud Penderfyniadau

## Efallai y byddwch chi a'ch plentyn hefyd yn hoffi'r canlynol:

**Cwis Buzz**

Cwis Personoliaeth. Cyfle i ganfod pa fath o bersonoliaeth sydd gennych a pha swyddi allai fod yn addas i chi.

**Swyddi Dyfodol Cymru**

Archwiliwch ranbarthau a diwydiannau Cymru. Dysgwch pa swyddi y gallech eu gwneud, nawr ac yn y dyfodol.

**Gwybodaeth am Swyddi**

Dysgwch beth mae'r swydd yn ei olygu, beth yw'r cyflog, sut i fynd i mewn, y galw yn y dyfodol a rhagor.

**Cwis Paru Gyrfa**

Dewch o hyd i'r swyddi a allai fod yn iawn i chi a chael syniadau gyrfa.



# Sut gallwn ni helpu eich plentyn

## Straeon go iawn

Ym Mlwyddyn 10, doedd Isabelle o Gaerdydd ddim yn siŵr beth i'w wneud nesaf. Roedd hi'n teimlo'n bryderus am y chweched dosbarth a'i hopsiynau ôl-16.

Dywedodd Isabelle: "Doeddwn i ddim yn siŵr iawn pa bynciau Safon Uwch ddylwn i eu gwneud, pa chweched dosbarth fyddai orau i mi, na beth oedd ei angen arna i ar gyfer y brifysgol."

Dyna pryd y cyfarfu â Nick, cynghorydd gyrfa ei hysgol.

Dywedodd: "Daeth Nick i mewn i'n grŵp blwyddyn ac esboniodd y cyfan. Os nad oeddech chi'n gwybod beth roeddech chi eisiau ei wneud, gallech chi fynd i siarad ag ef. Roedd yn ddefnyddiol iawn."

## Cyngor un-i-un

Ym Mlwyddyn 11, dechreuodd Isabelle sesiynau un-i-un gyda Nick.

Dywedodd Isabelle: "Doedd gen i ddim syniad beth ddylwn i ei wneud ar ôl ysgol. Roeddwn i'n teimlo mor unig. Ond gwnaeth Nick i mi sylweddoli nad oeddwn i ar fy mhen fy hun a bod cymaint mwy o opsiynau. Gwnaeth i mi deimlo'n llai pryderus ynglŷn â gadael yr ysgol."

Cam wrth gam, gwnaeth Nick helpu Isabelle i fagu hyder.

Dywedodd: "Dechreuodd gyflwyno'r syniad o'r chweched dosbarth i mi'n araf bach. Gwnaeth i'r cyfan ymddangos yn hawdd ac yn hwylus. Roedd yn swnio'n llawer llai brawychus."

"Aeth drwy'r holl ysgolion gwahanol yn ein hardal a'm helpu i benderfynu pa un fyddai'n gweddu orau. Dangosodd i mi pryd oedd diwrnodau agored yn cael eu cynnal a phethau fel hynny.

Gyda chymorth Nick, penderfynodd Isabelle astudio seicoleg, bioleg, hanes, ac addysg grefyddol.

## Teimlo'n hyderus am y dyfodol

Mae Isabelle yn teimlo'n llawer mwy cadarnhaol am ei dyfodol nawr. Mae hi'n gobeithio gwneud gradd mewn seicoleg. Hoffai weithio mewn rôl sy'n helpu pobl ac yn cefnogi cymunedau.

Dywedodd: "Helpodd Nick fi i benderfynu ar y lle gorau i mi, pa raddau oedd eu hangen arna i, a beth ddylwn i ei wneud gyda fy nyfodol."

"Rwy'n teimlo'n llawer gwell amdano nawr oherwydd bod gen i gymorth ac rwy'n gwybod i ble galla i fynd. Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus am fy nyfodol."



## Stori Isabelle

***Helpodd cymorth gyrfa Isabelle i deimlo'n llai pryderus ac yn fwy hyderus am ei dyfodol.***

## Cyngor i eraill

Pan ofynnwyd iddi beth fyddai'n ei ddweud wrth bobl ifanc eraill sy'n teimlo'n bryderus am eu dyfodol, dywedodd Isabelle:

"Byddwn i'n dweud wrthyn nhw am siarad â Gyrfa Cymru a gwybod nad ydyn nhw ar eu pen eu hunain. Mae cymaint o gymorth maen nhw'n gallu ei gynnig."

# Cydlynydd Cwricwlwm Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith

## Diwrnod ym mywyd




## Rhys Davies

### Teitl y swydd:

Cydlynydd Cwricwlwm Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith

### Canolfan Gyrfa:

Castell-nedd

### Ysgolion a cholegau cysylltiedig:

Pob ysgol a choleg yn Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion

Rwy'n gweithio gydag ysgolion a cholegau yn Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion fel aelod o'n tîm cwricwlwm.

Fy rôl i yw cynorthwyo athrawon i ddarparu profiadau addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o safon fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i gyflwyno rhaglen yrfaoedd effeithiol i ddysgwyr.

Fel arfer, rwy'n dechrau fy niwrnod tuag 8am trwy wirio fy amserlen a pharatoi adnoddau ar gyfer yr ysgolion y byddaf yn gweithio gyda nhw. Heddiw, rwy'n ymweld ag ysgol uwchradd sy'n cymryd rhan yn ein Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru. Rwy' wedi trefnu i gyfarfod â'r arweinydd gyrfaoedd, penaethiaid meysydd ac athrawon pwnc i drafod sut y gellir ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn iawn ar draws pob maes dysgu a phrofiad.

Rwy'n gweithio gydag athrawon i wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn deall perthnasedd yr hyn maen nhw'n ei astudio i'w gyrfa yn y dyfodol. Cynorthwyir athrawon hefyd i ehangu gorwelion, helpu dysgwyr i ddysgu mwy am eu diddordebau, herio stereoteipiau traddodiadol, gwella ffyrdd o wneud penderfyniadau, datblygu sgiliau a hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Mae cyfarfod heddiw gyda'r arweinydd gyrfaoedd yn canolbwyntio ar ddeall profiadau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fel thema drawsbynciol yn y cwricwlwm. Byddwn ni'n trafod gweledigaeth yr ysgol ar gyfer profiadau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, yn nodi meysydd cychwynnol i'w gwella ac yn cwblhau cynllun datblygu. Mae'r arweinydd gyrfaoedd yn frwdfrydig ac yn dymuno cynnwys staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr, boed hynny wrth ddylunio'r rhaglen gyrfaoedd neu drwy gyfrannu'n weithredol ati.

Yn ystod gweddill y bore, rwy'n cynorthwyo penaethiaid meysydd ac athrawon pwnc unigol i gynllunio profiadau

dysgu dilys sy'n dod â'r cwricwlwm yn fyw ac yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae eu sgiliau a'u diddordebau'n cysylltu â swyddi yn y byd go iawn. Rydyn ni'n trafod defnyddio gyrfaoedd mewn ynni adnewyddadwy fel cyd-destun ar gyfer dysgu mewn gwyddoniaeth, gan gysylltu pwnc trigonometreg â byd gwaith a sut y gellir defnyddio profiadau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith fel cyd-destun ar gyfer dysgu yn TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg newydd CBAC.

Ar ôl cinio, rwy'n cynnal sesiwn hyfforddi i athrawon. Rydyn ni'n siarad am sut mae cyflawni profiadau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith bellach yn gyfrifoldeb i'r holl staff, yn trafod gwybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur ac yn archwilio'r ystod eang o adnoddau a chymorth sydd ar gael gan Gyrfa Cymru. Mae athrawon yn gadael gyda syniadau ymarferol a hyder i gyflwyno dysgu sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd i'w hystafelloedd dosbarth.

Rwy'n gorffen fy niwrnod trwy ddiweddaru ein systemau mewnol gyda nodiadau o gyfarfodydd a chynllunio'r camau nesaf gydag ysgolion. Rwy' hefyd yn ymateb i negeseuon e-bost gan ysgolion a cholegau sydd eisiau cymorth gyda datblygu profiadau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn fy ardal.

## Y rhan orau o'm swydd

Y rhan orau o'm swydd yw pan fydd athro yn dweud wrthyf sut y gwnaeth gwers ennyn diddordeb newydd a chaniatáu i ddysgwyr weld pwysigrwydd a pherthnasedd ehangach pwnc trwy gysylltiadau priodol â byd gwaith.

Rwy'n mwynhau cyfrannu at ddull sy'n blaenoriaethu 'pam' ein bod ni'n dysgu ac sy'n cefnogi gweithwyr addysg proffesiynol i ddatblygu profiadau dysgu cyfoethocach.

→ [Dysgwch fwy am ein gwaith yn cefnogi'r cwricwlwm yma]



# Digwyddiadau sydd ar y gweill

Bydd Sgiliau Cymru, y digwyddiad gyrfaoedd a sgiliau mwyaf yng Nghymru, yn dychwelyd i Gaerdydd ym mis Tachwedd 2025.

Mae'r digwyddiad yn addo dod â thros 60 o gyflogwyr, prifysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant cenedlaethol a lleol ynghyd.

Wedi'i drefnu gan NAS Media a'i gefnogi gan Gyrfa Cymru, mae Sgiliau Cymru yn ddigwyddiad deuddydd yn rhad ac am ddim, i bobl sy'n gadael yr ysgol a phobl ifanc.

Gwahoddir rhieni a gofalwyr i fynychu gyda'u plentyn rhwng 3.30pm a 6pm ddydd Mercher 26 Tachwedd.

SGILIAU CYMRU
SKILLS CYMRU
UTILITA ARENA, CAERDYDD/CARDIFF - 26-27 TACHWEDD/NOVEMBER 2025

**Mae pob digwyddiad sydd ar y gweill ym mhob cwr o Gymru, lle bydd ein cynghorwyr gyrfaoedd wrth law i rannu cyngor ac arweiniad, i'w gweld ar ein gwefannau:**

Digwyddiadau Gyrfa Cymru

Digwyddiadau Cymru'n Gweithio







## Cymru'n Gweithio
## Working Wales

**Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn cefnogi unrhyw un 16 oed a hŷn i ddod o hyd i swydd neu gael mynediad at gyfleoedd i uwchsgilio trwy gyrsiau a hyfforddiant.**

Mae'r gwasanaeth wedi'i deilwra i amgylchiadau personol pob unigolyn - boed yn fyfyriwr sydd wedi gadael yr ysgol, yn wynebu cael ei ddiswyddo, wedi cael ei ddiswyddo'n ddiweddar, neu'n ystyried newid gyrfa.
Rydym hefyd yn cefnogi unrhyw un sydd eisiau uwchsgilio, magu hyder, llunio CV, datblygu sgiliau cyfweliad neu oresgyn rhwystrau i waith.

Gallwch gael cymorth am ddim gan Cymru'n Gweithio yn un o **ganolfannau Gyrfa Cymru**, ein lleoliadau allgymorth, dros y ffôn neu'n ddigidol. **Dewch o hyd i ragor o wybodaeth yma** neu **gallwch drefnu apwyntiad**.



**www.cymrungweithio.llyw.cymru**



Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau darllen y cylchlythyr hwn. Os hoffech rannu eich adborth ar ein gwaith gyda rhieni, cwblhewch ein holiadur rhieni.

**Holiadur Rhieni**

## Cysylltwch â ni:

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy **www.gyrfacymru.llyw.cymru**
- Galwch heibio i un o'n **canolfannau gyrfaoedd**
- Anfonwch neges ebost i **post@gyrfacymru.llyw.cymru**

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government